

# BRUCE GRIFFITHS a'r Fynes-Clinton, yr leithydd mawr a swil Cymwynas y Sais i'r Iaith Gymraeg

TUA 1961 oedd hi, yn seler siop lyfrau Cymraeg Griffiths, o annwyl goffadwriaeth, yn Cecil Court, ger Charing Cross. Yno telais ddwybunt — pris go uchel bryd hynny — am gopi o lyfr yr Athro O. H. Fynes-Clinton, *The Welsh Vocabulary of the Bangor District* (O.U.P., 1913). Gwelswn y llyfr o'r blaen, ond hyd y dydd hwn ni wn paham y'i prynais: mae rhannau Cymraeg y testun yn y wyddor seinogol nad oeddwn bryd hynny yn ei ddeall; ond ers darllen llyfr T. Hudson-Williams, *Atgofion am Gaernarfon*, yn enwedig ei bennod ar 'Iaith y dre', buasai gennyf ddiddordeb cynyddol yng neirfa'r iaith lafar. Yr oedd dau neu dri chopi arall yn siop Griffiths — trueni na fuaswn wedi buddsoddi ynddynt! Y tro diwethaf imi weld copi ar werth oedd mewn ocsiwn yn Llangefni, flyneddododd yn ôl, a rhywun yn talu £80 amdano. Y mae'n ddiregelwch i mi pa fudd a geir o'r llyfr gan y rhan fwyaf o'r rhai sy'n talu talu crobris amdano: ai prynu llyfr prin y maent, yn unig am ei fod yn brin?

Pwy oedd yr awdur? Bu'n Athro Ffrangeg Coleg y Gogledd o 1904 hyd 1937. Pan ddeuthum i wneud ymchwil ar y dramodydd Jean-François Regnard, cefais i Fynes-Clinton gyhoeddi golygiad o'i gampwaith, *Le Légataire Universel*. Hyd y gwn, dyna'i unig gyfraniad i ysgolheictod Ffrengig.

Nid crys cof amdano yn y coleg, nid oes llun ohono ar gael, hyd y gwn, a phan fu farw yn 1941 nid oedd cylchgrawn coleg yn bod i sôn amdano. Rhwir sylw byr ar ei yrfa yn *Who was Who*, a cheir hanes ei angladd yn y *North Wales Chronicle*, Awst 15, 1941, a cheir ysgrif goffa iddo gan yr Athro Ifor Williams yn yr un papur, Awst 22, 1941.

Ganed ef yn 1869, yn fab i reithor plwyf Barlow Moor, Didsbury, ger Manceinion. Enillodd radd mewn ieithoedd yng Ngholeg Sant Ioan, Rhydychen; bu'n athro yn ysgol King Edward, Birmingham, cyn

O dud. 2

seneddol yn ôl. Fel arwydd o'u diolch bragwyd casgen arbennig o gwrw gan bobl Llandwrog, a'i hanfon iddo i Lundain.

NID anghofiodd Griffiths Davies y graig y'i naddwyd ohoni. Cafodd amryw o Gymry ifanc a aeth i Lundain gymorth ganddo.

AM ffynonellau gweler erthygl gan yr awdur yn *Trafodion Anrhydeddus Cymdeithas y Cymmrodorion* yn 1988.

ei benodi'n Athro yng Ngholeg y Gogledd lle bu am weddill ei oes.

Yn 1907 priododd Gwladys Mabel, merch William Hughes ficer Llanuwchllyn, a bu iddynt un mab. Wedi ei ymddeoliad yn 1937 cafodd y teitl Athro Emeritws. Cawsai hefyd radd D.Litt. gan y brifysgol.

\* \* \* \*

SUT UN ydoedd? Yn ôl Ifor Williams, a'i hadwaenai'n dda, yr oedd yn wr eithriadol swla, yr oedd yn wr eithriadol swla a thawedog. Yn eisteddfod y coleg cynigiodd Fynes-Clinton wobwr am y casgliad gorau o eiriau tafodieithol, a chasgliad Ifor Williams o eiriau Tregarth a enillodd, ac sy'n gnewyllyn llyfr Fynes-Clinton. Buont yn gyfeillan am 35 mlynedd. Meddai Ifor Williams:

*'No Cymro born and bred could have loved the Welsh language more than did this shy reserved Englishman, and few worked harder, more steadfastly, or with more zest in its service . . . How many languages he knew I cannot say . . .'*

Sonia amdano'n mynd i Ynysoedd Aran i ddysgu Gwyddeleg, yn rhoi talp o faco'n dâl i dyddynnwr am ddod i siarad Gwyddeleg ag ef am awr: ond pan gyrhaeddodd y Gwyddel, yr oedd Fynes-Clinton yn rhy swil i ddweud rhagor na 'dydd da' a threuliwyd yr awr mewn mudandod llwyr, gyda'r Athro'n ceisio meddwl am rywbeth i'w ddweud.

Ac eto, yma, fe dreuliai bedair awr bob wythnos gyda Chymro uniaith, Owen Hughes, Nantfelin, Llanfairfechan, ac un yn unig oedd hwnnw o ryw hanner dwsin o siaradwyr Cymraeg a fu'n ffynonellau iddo.

Ganesid Owen Hughes yn 1835, a John Williams Jones, Aber yn 1839. Tebyg y cofiai'r rhain eiriau ac ymadroddion a glywsent gan eu teidiau a'u neiniau: dyna fynd â ni yn ôl i'r ddeunawfed ganrif mewn rhai pethau. Er enghraifft cofnododd yr ymadrodd: 'Pwy sy'n dweud? Pobl y gôtsh fawr', gan egluro, *'the chief purveyors of news in the old days'*.

Y mae campwaith Fynes-Clinton — clamp o lyfr o ryw 600 tudalen — yn syfrdanol, yn enwedig o ystyried iddo ei wneud rhwng 1904 a 1912. Yn wahanol i unrhyw gasgliad arall o eiriau tafodieithol — sy'n tueddu i gynnwys geiriau anarferol a darfoddedig — mae hwn yn cynnwys pob gair yn nhafodiaith yr ardal, gan roi ynganiad, cenedl, lluosog, ffurfdroadau berfau, diffiniadau, enghreifftiau o'r defnydd a wneir o bob un,

idiomau, cymariaethau, a.y.b. Hefyd dyry eu tarddiad ac enghreifftiau o awduron megis Twm o'r Nant ac yn wir o holl lenyddiaeth Cymru. Hwn mewn gwirionedd yw'r unig eiriadur o'r iaith Gymraeg, yng ngwir ystyr y gair 'eiriadur'.

Ceir ymadroddion megis, blaen y gyllell = *the thin end of the wedge*; y drydedd waith bydd coel = *third time lucky*; mae 'na ryw gath yng nghwprwrdd pawb = *there's a skeleton in every cupboard*. Ceir enwau cregyn: trwyn fy nain, *Trochus zizyphinus*; crogan 'Berffro, clam; crogan Iago, *cowrie*. Am a wn i mai ef yw'r unig un a feddyliodd holi pysgotwyr, tra bu sawl ymchwilydd yn mynd ar drywydd geiriau amaethyddol.

Eto ceir bylchau annisgwyl yn y casgliad: ni chofnododd eiriau megis *bwriad, maes, digysur*. Ond ers yn gloddfa ddihysbydd gwerth ei phwysau mewn aur i eiriadurwyr; syrthiodd fy nghopi i yn dipiau a bu'n rhaid ei ailrwympo, o fynych fodio. Bob tro y troaf ato caf rywbeth newydd imi. Rhaid rhyfeddu at gyfoeth aruthrol geirfa pobl Bangor ganrif yn ôl, geirfa atebol i ddisgrifio unrhyw beth bryd hynny.

O na bai gennym gasgliad cyffelyb ar gyfer rhannau eraill o Gymru! Gellid wylo nad oes casgliad cyffelyb o unman yn y de; pe buasai casgliad o Fferthyr, er enghraifft, pan oedd Cymry Cymroeg o bob man yn tyrru yno ar droad y ganrif. Onid yw'n gywilydd inni mai Sais, na wyddai mo'r iaith cyn dod yma, ac a oedd ganddo orchwyllion swyddogol eraill yn galw, a ddangosodd yr hyn y gellid ei wneud mewn dim ond wyth mlynedd?

\* \* \* \*

SERCH hynny, ychydig iawn o ddefnydd a wnaed gan neb o'i waith. Cyfaddefodd yr hynaws R. E. Jones, awdur y ddau *Lyfr Idiomaau Cymraeg*, na chrosodd ei feddwl chwilota drwy'r *Welsh Vocabulary*; nis defnyddiwyd gan William Hay, awdur *Diarhegion Cymru*; a methwyd sawl peth gan Eiriadur Prifysgol Cymru, hyd yn oed. Ni chynhwyswyd y gair *celog*, y gair Cymraeg am *coley*, *coalfish*. At ei gilydd anwybyddwyd y casgliad mwyaf gwerthfawr erioed o eirfa a phriod-ddulliau'r Gymraeg.

Ym Mai, 1922, cyhoeddodd yr awdur atodiad o eiriau pellach yn y *Bulletin of the Board of Celtic Studies*. Ond hyd y gwn ar ôl 1913, yn ystod oes faith, ni wnaeth unrhyw gyfraniad pellach i ysgolheictod na Chymru na Ffrainc. Ond bu'n dal i gasglu,

ac wrth ymddeol cyflwynodd i archifyd'r coleg ei gopi ei hun o'i waith mawr, gyda phob yn ail dudalen yn weili, copi arbennig a'i galluogai i wneud miloedd o ychwanegiadau llawysgrif ar y tudalennau gweili.

Hefyd, ail gyfrol lawysgrif o eiriau Bangor, gymaint â'r gyntaf, na welodd olau dydd, y dylid ei chyhoeddi rywsut.

Ychydig cyn ei farw, meddai Ifor Williams, daeth Fynes-Clinton ato'n wylaidd i ddangos iddo lyfryn o gerddi a gyfansoddodd yn Gymraeg; trawyd Ifor Williams yn arbennig gan un gerdd, er cof am ei fam:

*'That was the last and highest compliment he paid to the language he had loved so well: he sang in it the hiraeth that he could express in no other medium.'*

Yn ei angladd yr oedd yr emynau a'r llithiau i gyd yn Gymraeg. Claddwyd ef yn Llanfairpwll. Ni wyddys i ble'r aeth y cerddi.

\* \* \* \*

YN EIRONIG ddigon, er mai un o Lanuwchllyn oedd ei wraig, nid Cymraeg oedd iaith eu cartref. Iddi hi iaith i'w siarad â'r morynion yn y gegin yn unig oedd y Gymraeg, fel y deallais gan rywun a'i hadwaenai. Bu ei weddw fyw hyd y saithdegau.

Cofiaf gwrdd â hi unwaith, pan oeddwn yn chwilio am fflat yn 1962; daeth hi i'r drws yn hen wraig, dal, fain, urddasol mewn gwyn, nid annhebyg rywsut i Miss Haversham yn *Great Expectations*.

Pan fu hi farw cefais neges, trwy law Derwyn Jones, i fynd i'r tŷ i fwrw golwg ar lyfrau Ffrangeg a gynigid i lyfrgell y coleg. Yr oedd ei mab yno'n clirio'r tŷ, gwr bonheddig o Sais a oedd, neu a fuasai, yn gonswl yn y gwasanaeth diplomyddol. Nofelau a thestunau digon cyffredin oedd y lyfrau Ffrangeg — cawsai'r pethau academaidd eu gwerthu ers tro, mi dybiwn i. Ond ar y llawr yr oedd dau neu dri nodlyfr llawysgrif: dyddiaduron Fynes-Clinton, a gadwasai mewn dwsin o wahanol ieithoedd — Saesneg, Ffrangeg, Eidaleg, Sbaeneg, Lladin, Groeg a Hebraeg — ni wn i ddim faint i gyd.

Yr oedd hefyd dudalennau rhyddion ar wasgar ar lawr; cesglais hwy at ei gilydd: tudalennau oeddynt o gyfrol lawysgrif o nodiadau ar Wyddeleg Ynys Aran, llyfr o ryw 300 tudalen. Chwarter awr yn hwyrach buasai'r mab wedi eu taflu i'r tân, ond cefais fynd â hwy i archifyd'r coleg. Hwyrach y daw rhyw ieithgi i'w dehongli ryw ddydd.